



Dogfen Reoleiddio
POLISIÂU A GWEITHDREFNAU RHEOLEIDDIO

Cymryd Camau Pan Aiff Pethau O Chwith

Mehefin 2016

Rheoli Fersiynau

Cymeradwywyd y fersiwn hon (1.1) o bolisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith Cymwysterau Cymru ar 25 Mehefin 2016 gan Fwrdd Cymwysterau Cymru.

Mae Adran 47(1) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (y "Ddeddf"), yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru gyhoeddi datganiad o'i bolisi mewn perthynas â gorfodi. Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu ei ddatganiadau polisi a baratowyd dan adran 47 o'r Ddeddf, ac os bydd o'r farn ei bod yn briodol, yn dilyn adolygiad, bydd yn paratoi datganiadau diwygiedig. Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu'r ddogfen hon o leiaf unwaith bob tair blynedd. Gallai adolygiad o'r fath ystyried effeithiolrwydd y polisi a'i gymhwysedd parhaus. Disgwylir i'r datganiad hwn gael ei adolygu nesaf erbyn 30 Medi 2019 fan bellaf.

Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch eich sylwadau i policy@qualificationswales.org. Noder mai dim ond sylwadau ynglŷn â chyffredinolrwydd y ddogfen hon, yn hytrach na sefyllfaoedd penodol, a gaiff eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

Egwyddorion Cyffredinol y polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith

Mae'r polisi hwn wedi'i anelu at gyrff dyfarnu cydnabyddedig ac aelodau o'r cyhoedd i'w galluogi i ddeall sut y gallai Cymwysterau Cymru ddefnyddio ei bwerau gorfodi a chosbi a ddiffiniwyd yn Rhan 7 (*Pwerau Gorfodi Cymwysterau Cymru*) ac Atodlen 3 (*Darpariaeth bellach ynghylch cydnabod cyrff dyfarnu*) o'r Ddeddf. Mae Cymwysterau Cymru yn pennu Amodau Cydnabod Safonol at gyfer cyrff dyfarnu ac yn monitro cydymffurfiaeth yn erbyn y rhain ac amodau eraill a gyhoeddir. Cymerir camau gorfodi felly yn unol â'r amodau a gyhoeddir. Bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried y gofynion y gall rheoleiddio ei osod ar gyrff dyfarnu a bydd wedi llunio'r polisi hwn yn unol ag egwyddorion tryloywder, cysondeb, cymesuredd, atebolrwydd a thargedu. Er mwyn sicrhau cymesuredd, mae'r polisi hwn hefyd yn amlinellu'r camau a ddefnyddir cyn rhoi pwerau gorfodi ar waith fel y'i diffinnir gan y Ddeddf.

Mae'r polisi ond hwn yn ymwneud â chymhwyso pwerau gorfodi. Mae'r Polisi Apeliadau Rheoliadol yn amlinellu sut y gellir apelio yn erbyn penderfyniadau rheoliadol gan gynnwys cymhwyso pwerau gorfodi.

CYNNWYS

Cyd-destun

Camau y Gallai Cymwysterau Cymru eu Cymryd

Ffactorau y Byddai Cymwysterau Cymru yn eu Hystyried

CYD-DESTUN

1. Mae'r system cymwysterau yn gymhleth ac, er y bydd Cymwysterau Cymru yn gwneud ymdrechion yn seiliedig ar risg i atal problemau, bydd problemau yn codi o bryd i'w gilydd sy'n effeithio ar y cymwysterau a ddyfernir neu sydd ar fin cael eu dyfarnu. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried ein camau gweithredu yn ofalus, gan ystyried yr amgylchiadau ac yn arbennig, achos y broblem. Lle y bo'n briodol, bydd Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r pwerau sydd gennym i benderfynu pa gamau gweithredu y dylid eu cymryd er mwyn atal y broblem rhag digwydd eto ac er mwyn unioni'r sefyllfa. Mae'r polisi hwn yn nodi'r ffyrdd rydym yn bwriadu ymdrin â methiannau a defnyddio pwerau gorfodi a chosbi.

CAMAU Y GALLAI CYMWYSTERAU CYMRU EU CYMRYD


2. Yr opsiynau sydd ar gael i Cymwysterau Cymru fel y'i diffinnir yn y Ddeddf yw:
 - Rhoi cyfarwyddyd i'r corff dyfarnu gymryd cam gweithredu penodol neu gyflawni canlyniad penodol (Adran 37- *Pŵer i roi cyfarwyddiadau*)
 - Gosod cosb (Adran 38- *Pŵer i osod cosbau ariannol*)
 - Gosod gofynion ychwanegol, fel amodau cydnabod penodol, ar gorff dyfarnu (Atodlen 3 Adran 4 - *Amodau arbennig y caniateir i gydnabyddiaeth fod yn ddarostyngedig iddynt*)
 - Tynnu cydnabyddiaeth y corff dyfarnu yn ôl (Atodlen 3 Adran 19 - *Tynnu Cydnabyddiaeth yn Ôl*)

Cyn cymhwyso pwerau gorfodi, neu ar ôl eu cymhwyso, gall Cymwysterau Cymru, fel y bo'n briodol, wneud y canlynol:

- Cytuno ar gynllun gweithredu a gynigir gan y corff dyfarnu
 - Derbyd ymrwymiad ffurfiol gan y corff dyfarnu
 - Trafod mater yn gyhoeddus
3. Gan mai prif amcan Cymwysterau Cymru yw sicrhau bod y cymwysterau a system gymwysterau Cymru yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr, gall Cymwysterau Cymru, lle y gellir rhagweld problem, ymyrryd i atal y broblem rhag digwydd drwy roi cyfarwyddyd i gorff dyfarnu gymryd camau penodol, neu beidio â'u cymryd, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r amodau cydnabod perthnasol. Fel arall, gall Cymwysterau Cymru gymryd camau

gweithredu ar ôl digwyddiad i roi cyfarwyddyd i gorff dyfarnu gymryd camau gweithredu er mwyn atal methiannau pellach.

4. Mewn rhai achosion, gall Cymwysterau Cymru benderfynu defnyddio mwy nag un o'r opsiynau isod er mwyn cyflawni ei ganlyniad. Gellir defnyddio'r opsiynau isod wrth uwchgyfeirio ond ni fwriedir iddynt fod yn arwydd o gamau a ddiffiniwyd.



FFACTORAU Y BYDDAI CYMWYSTERAU CYMRU YN EU HYSTYRIED

5. Bydd Cymwysterau Cymru yn anelu at ddefnyddio ei bwerau gorfodi, lle bo angen, mewn ffordd gymesur, dryloyw ac wedi'i thargedu er mwyn sicrhau cydymffurfiad gan gorff dyfarnu pan fydd problemau wedi digwydd ac er mwyn annog cydymffurfiad gan gyrff eraill hefyd.

6. Bydd y ffactorau y bydd Cymwysterau Cymru yn eu hystyried wrth bennu camau gweithredu yn cynnwys y canlynol:

- Yr amseriad a'r modd y cafodd y broblem ei dwyn i sylw Cymwysterau Cymru gyntaf. Er enghraifft a wnaeth y corff dyfarnu roi gwybod am y broblem neu a wnaeth Cymwysterau Cymru ei nodi o ganlyniad i gŵyn neu weithgaredd monitro.
- Natur yr achos o dorri rheolau a ph'un a oedd yn fwriadol ai peidio.
- Y tebygolrwydd, ym marn Cymwysterau Cymru, y bydd y broblem hon neu rywbeth tebyg yn cael eu hailadrodd.
- Natur frys y camau gweithredu sydd eu hangen.
- P'un a yw corff dyfarnu wedi methu â chydymffurfio ag amod, neu'n debygol o wneud hynny.
- Difrifoldeb y broblem. Gellid mesur difrifoldeb y broblem, er enghraifft, yn ôl y nifer o fyfyrwyr yr effeithir arnynt, cyfnod amser problem neu'r goblygiadau i unigolion neu bobl/sefydliadau eraill yr effeithir arnynt.
- Y ffactorau sylfaenol a achosodd y broblem:
 - p'un a oedd y corff dyfarnu yn ymwybodol o'r risgiau a gymerwyd ai peidio;
 - p'un a oedd Cymwysterau Cymru eisoes wedi darparu arweiniad yn y maes hwn ai peidio; a ph'un a gydymffurfiwyd â'r arweiniad hwnnw ai peidio;
 - p'un ai digwyddiad untro ydoedd neu ganlyniad methiant systemig ehangach.
- Ymateb y corff dyfarnu pan ddaeth y broblem i'r amlwg
- Yr effaith a gaiff y camau gweithredu ar fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau gyda'r un corff dyfarnu.
- Yr effaith ar hyder y cyhoedd.

7. Bydd Cymwysterau Cymru yn ceisio bod yn gymesur, yn briodol ac yn ystyried risgiau cymryd camau gorfodi. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn ymwybodol o unrhyw gamau gweithredu eraill sydd ar waith gan reoleiddwyr eraill mewn perthynas â'r un mater.

8. Os bydd Cymwysterau Cymru yn penderfynu defnyddio unrhyw rai o'r adnoddau gorfodi sydd ar gael i ni, byddwn yn gwneud hynny, lle y bo'n bosibl,

gan hysbysu'r corff dyfarnu dan sylw yn llawn ein bod yn gwneud hynny. Caiff y corff hwnnw gyfle i wneud sylwadau preifat ar ganfyddiadau unrhyw ymchwiliad a champau gweithredu arfaethedig ac i gynnig camau gweithredu amgen. Bydd yr amser a fydd ar gael ar gyfer cyswllt o'r fath gyda'r corff dyfarnu dan sylw yn dibynnu ar natur frys y camau gweithredu. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau gorfodi a gymerir gan Cymwysterau Cymru o fewn 20 diwrnod gwaith o gael hysbysiad am y penderfyniad drwy'r Polisi Apeliadau Rheoliadol.

9. O dan yr amgylchiadau annhebygol na fydd corff dyfarnu yn barod i roi'r wybodaeth neu sicrhau'r mynediad sydd ei angen ar Cymwysterau Cymru, mae Deddf Cymwysterau Cymru yn rhoi'r pŵer i Cymwysterau Cymru gael mynediad i eiddo'r corff dyfarnu a'i archwilio. Os bydd Cymwysterau Cymru o'r farn bod angen ymgymryd â'r cam gweithredu hwn, byddem yn gwneud cais i ynad heddwch am ganiatâd i fwrw ymlaen, gan nodi'r cyfiawnhad dros wneud hynny. Byddem ond yn gwneud hyn petai peidio â gwneud, yn ein barn ni, yn peri risg sylweddol o anfantais i ddysgwyr ac i'r system gymwysterau.
10. Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu'r camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn achos o gymryd camau gorfodi er mwyn ystyried gwersi a ddysgwyd.
11. Gall Cymwysterau Cymru, yn ôl ei ddisgresiwn, gyhoeddi manylion camau gweithredu a gymerwyd naill ai yn yr adroddiad blynyddol i'r Cynulliad neu ar wefan Cymwysterau Cymru.